Coeden Ddarllen Rhydychen



Rhagor o Dylluanod

# Antur Nadolig

Roderick Hunt Alex Brychta




DRAKE




Roedd yn noswyl Nadolig.
Roedd y plant yn gyffrous, ond
roedd Mam yn dwym a Dad yn flin.
'Mae'r Nadolig yn waith caled,' meddai Dad.



Gosododd Dad rai addurniadau.
Roedd am i'r plant helpu, ond
doedden nhw ddim eisiau gwneud.
Roedden nhw'n gwylio'r teledu.





Diffoddodd Dad y teledu.
'O!' meddai Onw. 'Roedden ni'n
gwylio rhaglen dda.'
'Mae'n bryd ichi helpu,' meddai Dad.





Ar hynny, daeth Wilff a Wilma.
Roedden nhw wedi dod ag anrhegion i Cad,
Dids ac Onw.
'Helpwn ni wedyn,' meddai Dids.







Roedd gan Cad a Dids anrhegion i
Wilff a Wilma.
'Peidiwch â'u hagor nhw tan
yfory,' meddai Cad.




Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.
'Mae'n amser antur hud,'
meddai Dids.
'Gobeithio mai antur Nadolig fydd hi.'






Aeth yr allwedd hud â'r plant i
wlad Siôn Corn.
'Hwrê!' meddai Wilff. 'Gallwn ddweud wrth
Siôn Corn beth i'w roi inni.'




Roedd y plant yn gyffrous.
Roedden nhw eisiau anrhegion arbennig.
'Rydw i eisiau beic,' meddai Onw.
'Rydw i eisiau sglefr-fwrdd,' meddai Cad.




Canodd y plant gloch y drws.
Canon nhw a chanon nhw, ond
ddaeth neb at y drws.
'Dyna ryfedd!' meddai Dids.




Chwiliodd y plant am Siôn
Corn, ond doedd e ddim yno.
Doedd neb yno.
'Ble mae pawb?' gofynnodd Wilma.




Roedd y plant yn siomedig.
'Dyw hi ddim yn deg,' meddai Dids.
'Roeddwn am ofyn i Siôn Corn
am gyfrifiadur.'




Chwiliodd y plant am Siôn Corn.
Daethon nhw at ei dŷ.
‘Efallai ei fod fan hyn,’ meddai Onw.






Aeth y plant i mewn.
Roedd hen ddyn yn cysgu mewn cadair.
‘Siôn Corn yw e,’ meddai Wilff.
‘Pam mae e’n cysgu mewn cadair?’




Edrychodd Cad ar y dyddiad.
'Y 25ain o Ragfyr yw hi,' meddai.
'Rhaid bod Siôn Corn wedi blino.
Roedd yn gweithio drwy'r nos.'




Yn sydyn, deffrôdd Siôn Corn.
'Beth rydych chi'n ei wneud fan hyn?' gofynnodd.
'Mae'n Ddydd Nadolig.
Anghofiais i alw yn eich tŷ chi?'



Doedd Siôn Corn ddim wedi gosod
addurniadau.
'Rwy wedi bod yn rhy brysur.
Mae'r un peth bob blwyddyn,' meddai.







Doedd gan Siôn Corn
ddim cinio Nadolig.
'Doedd dim amser gen i,' meddai.
'Mae plant eisiau cymaint o anrhegion.'




Roedd y plant yn flin
am Siôn Corn.
Daethon nhw o hyd i goeden
a'i gosod.



Daethon nhw o hyd i addurniadau
a'u gosod.
'Dydw i ddim wedi gosod addurniadau ers
blynyddoedd,' meddai Siôn Corn.




Gwnaeth Wilma a Dids frechdanau
jam mefus.
Daeth Siôn Corn o hyd i
lemonêd a chracers.





Gwisgodd Siôn Corn ei
got goch.
'Ho! Ho! Ho!' chwarddodd.
Bloeddiodd pawb hwrê.



‘Diolch,’ meddai Siôn Corn.

‘Dim ond eisiau pethau mae’r rhan fwyaf o blant,
ond rydych chi wedi rhoi Nadolig braf i fi.’

Dechreuodd yr allwedd ddisgleirio.

‘Nadolig llawen,’ meddai pawb.

‘Hwyl fawr,’ meddai Siôn Corn.

‘Diolch am bopeth.’




Aeth yr hud â'r plant adre.
Roedd yn noswyl Nadolig eto.
'Beth arall fedrwn ni ei wneud i helpu?'
gofynnodd Dids.

Argraffwyd yng Nghymru

# Antur Nadolig

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 6




Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Juli Paschalis**


Rhagor o
Dylluanod

**Tylluanod Cam 6**

1 Yn yr Ardd
2 Onw a'r Cawr
3 Y Wibdaith
4 Gwlad y Deinosoriaid
5 Robin Hwd
6 Y Gist Drysorau

**Tylluanod Cam 7**

7 Y Blaned Goch
8 Ar Goll yn y Jyngl
9 Twll yn y To
10 Colli Allwedd

**Rhagor o Dylluanod Cam 6**

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

**Rhagor o Dylluanod Cam 7**

Y Drafforddd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so


© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1994
Ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
Ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC



ISBN 0-86174-301-6

9 790861 743017

ISBN 0 86 174301 6

DRAKE